Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Talu am Ofal yng Nghymru

Efallai y bydd angen gofal a chymorth ar unrhyw un ohonom, ar ryw adeg yn ein bywydau. Ond sut y dylem dalu amdano?

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am gael gwybod eich barn.

Mae'r system bresennol ar gyfer talu am ofal i bobl hŷn ac anabl yn bodoli ers dros 60 mlynedd, ac mae angen iddi newid os ydym am fodloni'r galw cynyddol a'r disgwyliadau uwch.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i gael gwybod eich barn chi ynghylch y modd y dylem dalu am ofal yn y dyfodol.

I gael gwybod rhagor, ac i ddweud eich dweud ewch i www.taluamofalyngnghymru, neu anfonwch e-bost i payingforcare@wales.gsi.gov.uk.

Pa opsiynau sy'n cael eu hystyried gan y Llywodraeth?

Mae Llywodraeth y DU o'r farn y dylai'r ffordd newydd o dalu am ofal fod yn seiliedig ar bartneriaeth rhwng yr unigolyn a'r llywodraeth.

Hynny yw, byddai'r llywodraeth yn talu am gyfran o gostau pawb sy'n gymwys i gael gofal a chymorth, ond byddai angen iddynt dalu'r gweddill eu hunain.

Mae nifer o ffyrdd y gallai pobl baratoi i dalu eu cyfraniadau.

Er enghraifft, gallai pobl ddewis codi yswiriant rhag ofn y byddai angen gofal arnynt yn y dyfodol. Pan fyddai angen gofal arnynt, byddai'r llywodraeth yn talu cyfran o'r costau, a byddai'r yswiriant yn talu'r gweddill. Neu, gallai fod yn ofynnol i bawb dros oedran ymddeol, pe bai digon o fodd ganddo i wneud hynny, gyfrannu at gynllun yswiriant gwladol. Wedyn byddai gofal a chymorth yn rhad ac am ddim pan fyddai eu hangen ar bobl.

Byddai modd newid y system budd-daliadau anabledd hefyd, er mwyn integreiddio budd-daliadau megis Lwfans Gweini ac arian ar gyfer gofal cymdeithasol.

Ydy'r newidiadau hyn yn iawn i Gymru?

Rhowch eich barn - ewch i www.taluamofalyngnghymru.net

E3020910 © Hawlfraint y Goron 2009 CMK-22-312 18260